# **5 cam** i'ch helpu i ddod yn ddarparwr hyfforddiant **Site Safety Plus** cymeradwy



Cynllunio.
Gwneud.
Gwirio.
Gweithredu.

# Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i'ch helpu gyda'r broses o wneud cais i ddod yn ddarparwr hyfforddiant Site Safety Plus (SSP).

**Ein nod yw darparu cymaint o wybodaeth ac arweiniad i sicrhau bod ceisiadau newydd yn cael eu cymeradwyo ar eu cyflwyniad cyntaf.**

Mae'n bwysig darllen a deall dogfennaeth SSP sy'n dilyn y cylch '**Cynllunio, Gwneud, Gwirio, Gweithredu**', sy'n sicrhau eich bod yn cymryd perchnogaeth o'ch rôl yn y broses ymgeisio.

Bydd y pum cam nesaf yn eich arwain trwy'ch proses ymgeisio.

# Cam 1 – Darllen

Cliciwch ar y dolenni isod i gael gwybodaeth am y broses ymgeisio, yn ogystal â dogfennaeth a rheolau'r cynllun y dylech fod yn ymwybodol ohonynt.

- Cyfres Cyrsiau SSP – bydd hyn yn mynd â chi drwy'r gofynion y mae angen i chi eu bodloni i ddod yn ganolfan gymeradwy, megis ffioedd a'r broses ymgeisio

- Sut i ddod yn ATO – ar ôl dod yn ddarparwr hyfforddiant SSP, byddwch hefyd yn cael eich adnabod fel Sefydliad Hyfforddi Cymeradwy (ATO)

- Rheolau'r cynllun – mae hyn yn cwmpasu'r gofynion sicrhau ansawdd (QA), rheolau'r cynllun a rheolau'r prif gynllun. Mae hefyd yn cynnwys yr atodiadau ar gyfer pob cwrs.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost at:
sitesafetyplus@citb.co.uk

Bydd Arbenigwr Cynnyrch SSP yn gallu trefnu galwad i gefnogi'r cais.

# Cam 2 – Ymgeisio

Unwaith y bydd yr holl ddogfennaeth berthnasol wedi'i darllen a'ch bod yn hapus eich bod yn bodloni'r gofynion, gallwch wedyn lenwi'r ffurflen ymholiad gychwynnol.

Mae angen llenwi'r ffurflen yn llawn, hyd yn oed os ydych eisoes yn ganolfan CITB neu ATO ond yn gwneud cais i gynnig cynnyrch gwahanol.



# Cam 3 – Tystiolaeth

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich ffurflen ymholiad cychwynnol, ac wrth aros am ymateb, rydym yn argymell coladu ffeil o dystiolaeth y bydd angen i chi ei chael yn ystod eich ymweliad cymeradwyo gan Uwch Ymgynghorydd Ansawdd (SQC).

Eglurir popeth sydd ei angen ar gyfer hyn ym mharagraffau 12 a 13 ac Atodiad 1 o'r gofynion QA.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch:
quality.assurance@citb.co.uk



# Cam 4 – Gwirio

Isod mae rhai o'r meysydd sydd wedi arwain at ganolfannau yn methu â bodloni'r meini prawf cymeradwyo yn ystod ymweliadau cymeradwyo archwilio:

- Dim system rheoli ansawdd (QMS) i reoli polisïau a gweithdrefnau – cyfeiriwch at Atodiad 1 ar dudalen 25 o'r gofynion QA, gan fod hwn yn egluro'r QMS y byddai SQC yn chwilio amdano.

- Heb gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

- Lefelau polisi yswiriant annigonol – mae'r lefelau sydd eu hangen i'w gweld ym mharagraff 13 o'r gofynion QA

- Polisïau coll o'r ffeil dystiolaeth – mae rhestr o'r holl bolisïau y bydd angen i chi eu dangos ym mharagraff 12 o'r gofynion QA

- Dim tystiolaeth o gyfarwyddiadau/gweithdrefnau gwaith – mae angen i chi sicrhau bod gennych gyfarwyddiadau/gweithdrefnau gwaith clir wedi'u cynnwys yn eich ffeil dystiolaeth cyn eich ymweliad cymeradwyo (h.y. y cyfarwyddiadau gwaith ar gyfer aelod newydd o staff sy'n ymuno â'ch sefydliad).

# Cam 5 – Archwiliad

Unwaith y bydd eich cais wedi'i ddilysu a'i gymeradwyo gan y rheolwr QA, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen at SQC, a fydd yn cynnal eich archwiliad cymeradwyo. Byddant yn cysylltu â chi naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn i drafod y broses cyn cymeradwyo.

**Diwrnod yr archwiliad:**

Cwblheir archwiliadau naill ai'n bersonol neu o bell. Bydd y dull a ddefnyddir yn dibynnu ar leoliad, argaeledd y SQC a dewis y ganolfan. Mae archwiliadau o bell yn cael eu cwblhau trwy Microsoft Teams neu alwadau Zoom, a bydd y gwahoddiad yn cael ei ddarparu gan y SQC ar y cyd â chynlluniwr archwilio.

Bydd yr archwiliad yn dechrau gyda chyflwyniadau cyffredinol ac yna'n mynd ymlaen i drafodaeth am y ddogfennaeth a ddarparwyd a sut y bydd eich gweithdrefnau yn cefnogi rheolaeth cwrs SSP.

# Cymeradwyaeth

Yn dilyn archwiliad cymeradwyo llwyddiannus, bydd y SQC yn anfon y ffurflenni cytundeb atoch dros e-bost. Gellir cwblhau'r rhain yn electronig ac yna eu hargraffu i gael llofnod gwlyb. Bydd angen eu sganio a'u he-bostio at quality.assurance@citb.co.uk a'r SQC a gynhaliodd yr archwiliad.

Yna mae angen postio'r copïau caled trwy ddosbarthiad wedi'i olrhain i'n swyddfa yn Peterborough:

CITB
FAO Quality Assurance Department
Sand Martin House
Bittern Way
Peterborough
PE2 8TY

Unwaith y caiff ei gymeradwyo, bydd Arbenigwr Cynnyrch SSP yn cysylltu â chyswllt allweddol y ganolfan, ac yn rhoi cymorth i gael mynediad at Siop CITB yn ogystal â llywio Porth Darparwyr Hyfforddiant SSP ar SharePoint.

**Gobeithiwn fod y canllaw hwn yn ddefnyddiol i chi!**